# Nodyn cyfarfod

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol** | | | | |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Dydd Llun 23 Medi 2019** | Amser: | 10.00 | Lleoliad: | Swyddfeydd Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR |

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Zoe Henderson, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)<br>Marc Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru)<br>Spencer Conlon (Llywodraeth Cymru)<br>Ceri Davies (Undeb Amaethwyr Cymru)<br>Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)<br>Sara Jenkins (Menter a Busnes)<br>Lorna Davis (NFU Cymru)<br>Stephen Marsh-Smith (Cyswllt Amgylchedd Cymru)<br>Matt Lowe (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>Liz Franks (Hafren Dyfrdwy) |
| **Skype:** | Sophie Straiton (Dŵr Cymru) |

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| **1.** | **1) Croeso ac ymddiheuriadau *(Cadeirydd)*** |

1a Ymddiheuriadau
Nodwyd ymddiheuriadau gan
Bob Vaughan (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Geri Mills (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Sarah Hetherington
Nichola Salter (Cyfoeth Naturiol Cymru)
James Ruggeri (Hybu Cig Cymru)
Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)
Steven Bradley (Dŵr Cymru)
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

1b Cyflwyniadau – Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1c Datganiad o fuddiant
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant o ran eitemau'r agenda.

## 2. Cofnodion o'r cyfarfod ar 12 Awst a'r pwyntiau gweithredu nad ydynt wedi derbyn sylw

Cadarnhawyd y cofnodion yn amodol ar y diwygiad canlynol:
Arfon Williams, Cyswllt Amgylchedd Cymru, gan ddileu'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

Cofnod camau gweithredu

Nododd y grŵp y diweddariadau i'r camau gweithredu a ddosbarthwyd. Nodwyd y diwygiadau canlynol yn ystod y cyfarfod:

PG25 Ebrill: Mae Sarah Hethington, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn arwain ar y cam gweithredu a chadarnhaodd Matt Lowe y bydd y swyddogion dyddiadur newydd yn ymgymryd â hyfforddiant BASIS.

PG1 Mai: Cadarnhaodd Kevin Thomas fod cynnwys yr hyfforddiant wrthi'n cael ei gadarnhau, a'r gobaith yw ei gwblhau yn ystod cyfarfod ar 30 Medi. Mae peilot wrthi'n cael ei drefnu ar gyfer diwedd mis Hydref yng Ngelli Aur. Hysbysir y dyddiad pan gaiff ei gadarnhau.

PG11 Mai: Cadarnhaodd Marc Williams fod y data bellach wedi dod i law a bydd yn ei anfon at ystadegydd.

PG30 Mai: Cadarnhaodd Sara Jenkins fod yr wybodaeth wedi'i chyhoeddi.

PG4 Gorffennaf: Arloesedd i'w drafod yn ystod cyfarfod mis Hydref 2019.

PG4 Awst: Cyfarfod o'r is-grŵp rheoleiddio i'w drefnu gan Lywodraeth Cymru cyn diwedd mis Hydref 2019.

PG12 Awst: Wedi'i gyflawni ac mae briff yn cael ei ddosbarthu.

## 3. Blaenoriaethau is-grŵp amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru – trafodaeth ar y blaenoriaethau a godwyd yng nghyfarfod mis Mai 2019

Agorodd y cadeirydd y sesiwn trwy gadarnhau'r blaenoriaethau a nodwyd gan y grŵp ym mis Mai 2019, sef:

1) Gwella gwybodaeth ffermwyr ynghylch llygredd dŵr (a drafodwyd ym mis Mehefin)
2) Ymgysylltu â ffermwyr anodd eu cyrraedd (a drafodwyd ym mis Mehefin)
3) Arloesedd (i'w drafod ym mis Hydref)
4) Sut mae nwyddau cyhoeddus, rheoliadau amaethyddol newydd a chydnabyddiaeth a enillir yn integreiddio (i'w drafod ym mis Medi)
5) Gwella'r mynediad i grantiau, meddu ar system gynllunio sy'n galluogi,

sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol, a gweithdrefnau gweithredu ar gyfer darparwyr/cynghorwyr (cafodd yr holl eitemau hyn yr un nifer o bleidleisiau) (i'w trafod ym mis Medi)

Cadarnhaodd y cadeirydd y byddai Bob Vaughan yn arwain y drafodaeth ynglŷn ag eitem 3, sef arloesedd, yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp.

Agorodd y cadeirydd y drafodaeth trwy ofyn i'r aelodau a oeddent yn teimlo bod y blaenoriaethau a nodwyd ym mis Mai yn adlewyrchu'r camau gweithredu roedd y grŵp yn bwriadu eu datblygu. Yn dilyn y drafodaeth, cadarnhaodd y grŵp fod y rhain o hyd yn flaenoriaethau priodol, gan ganolbwyntio ar leihau llygredd amaethyddol ledled Cymru.

Trafododd y grŵp yr ymgysylltiad parhaus â ffermwyr a chadarnhaodd Lorna Davis fod 500 a mwy o ffermwyr wedi mynychu digwyddiadau yn ystod yr haf. Nodwyd bod y ffermwyr nad oeddent wedi mynychu'n anodd eu cyrraedd, ond gellid ymgysylltu â'r ffermwyr hyn trwy ddulliau gwahanol. Hefyd, mae rhai ffermwyr yn anodd eu cyrraedd yn ddigidol heb unrhyw signal ffôn symudol na rhyngrwyd i gael hyd i'r holl wybodaeth.

Esboniodd Stephen Marsh Smith eu bod wedi ymgysylltu â mwy o ffermwyr trwy alw'n ddiwahoddiad a darparu cyngor annibynnol y gellir ymddiried ynddo. Mae Sefydliad Gwy ac Wysg wedi sicrhau cyllid grant gwerth £5 miliwn a mwy yn Swydd Henffordd, gan ddarparu cyngor ac annog ffermwyr i rannu straeon newyddion da.

Nododd y grŵp fod angen sefydlu partneriaeth ffyddlon rhwng y ffermwr a'r cynghorydd, gan sicrhau hefyd fod y cyngor yn gyngor da.

Esboniodd Lorna Davis ei bod wedi cyfarfod ag Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, sydd â phartneriaeth ffyddlon ag NFU yr Alban a'r ffermwyr, gan ddarparu cyngor cymeradwy ac achrededig ar ffermio. Adolygir unrhyw gwynion dilynol.

***Pwynt gweithredu 01 mis Medi: Gofynnodd y cadeirydd i Lorna rannu adborth manwl ar yr hyn a ddysgwyd o ymgysylltiad Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban / NFU â'r grŵp.***

Daeth y cadeirydd i'r casgliad y byddai'r fforwm a'r is-grŵp yn elwa o gyfathrebiadau sy'n cyd-fynd yn fwy â dulliau gwahanol o gyfathrebu. Tynnwyd sylw at yr angen am gynllun cyfathrebu strwythuredig i'w ddatblygu gan y swyddog cymorth technegol, pan gaiff ei recriwtio.

***Pwynt gweithredu 02 mis Medi: Angen cynllun cyfathrebu mwy strwythuredig i gyrraedd gwahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd (Zoe Henderson / Meinir Wigley, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 4. Adroddiad cynnydd drafft – camau nesaf

Cadarnhaodd Marc Williams fod seibiant ar y gwaith o greu'r adroddiad cynnydd

drafft wrth aros i recriwtio adnodd amser llawn i gynorthwyo'r fforwm. Gan gyfeirio at yr adroddiad drafft, ac yntau'n ddogfen hirfaith, y bwriad oedd symleiddio hwn cyn ei gyflwyno yn y dyfodol.

Tynnodd NFU Cymru sylw at y ffaith mai'r prif gam gweithredu yw cyflawni cymaint o'r argymhellion yn yr adroddiad dros dro â phosibl a pheidio â threulio gormod o amser ar yr adroddiad.

## 5. Y diweddaraf ar y rheoliadau amaethyddol – amserlenni a'r camau nesaf

Cadarnhaodd Andrew Chambers y daeth ymatebion i law ar yr asesiad o'r effaith reoleiddiol, cyflwynwyd tystiolaeth ategol, a threfnwyd cyfarfod gyda'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol y dydd Iau canlynol. Yn dilyn cyfarfod y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol, byddai Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o wybodaeth i'r is-grŵp. Bydd cyfarfod arall i'w drefnu ar ddiwedd mis Hydref er mwyn trafod problemau, pennu cyfnodau pontio, a drafftio arweiniad i helpu i ymdrin â'r rheoliadau newydd.

***Pwynt gweithredu 03 mis Medi: Bydd Andrew Chambers yn trefnu cyfarfod o'r grŵp gorchwyl a gorffen rheoleiddio ar gyfer diwedd mis Hydref.***

## 6. Y diweddaraf ar y dull gwirfoddol o reoli maethynnau – beth sydd nesaf a'r amserlenni parhaus wrth nesáu at 2020

Cadarnhaodd Lorna Davis fod y prosiect wedi mynychu wyth sioe amaethyddol sirol ledled Cymru yn ystod misoedd yr haf, gan gyfarfod â 500 a mwy o ffermwyr. Y camau nesaf fyddai casglu'r adborth/ymatebion a chreu adroddiad er mwyn cyflawni nod y prosiect. Nododd y grŵp mai thema gref o'r adborth gan ffermwyr oedd dymuniad i ddeall mwy am ansawdd dŵr a chael gafael ar becynnau samplu ansawdd dŵr.

Cadarnhaodd Lorna ei bod wedi cynnal cyfarfod â Sarah Hetherington a Bob Vaughan yr wythnos flaenorol er mwyn trafod cynigion am brosiect gwyddoniaeth dinasyddion a fydd yn creu cyfleoedd i rannu pecynnau arbrofi ansawdd dŵr ac a fydd yn darparu mynediad i wyddonwyr er mwyn cynghori ar y canlyniadau a'r camau nesaf.

Bydd Lorna bellach yn gweithio ar ddatblygu'r safon dŵr ar ôl cyfarfod â Sophie Straiton yr wythnos ddiwethaf er mwyn trafod y strwythur. Bydd Lorna'n cyflwyno i'r grŵp llywio ansawdd dŵr er mwyn cytuno ar y cwmpas i ddod â'r corff tystiolaeth a gwybodaeth o 12 mis y prosiect ynghyd.

Cadarnhawyd bod Bob Vaughan a Sarah Hetherington (perchenogion prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru) yn ystyried y gofyniad am gyfarfod ar wahân i adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd gan y prosiect.

***Pwynt gweithredu 04 mis Medi: Bydd perchenogion prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried yn fanwl ganlyniadau gofynnol yr adroddiad a gesglir gan Lorna (Bob Vaughan / Sarah Hetherington, Cyfoeth Naturiol***

***Cymru).***

Pwysleisiodd y cadeirydd y cytunwyd ar bum thema waith graidd yn yr adroddiad dros dro a bod y pwyslais mwyaf ar y dull gwirfoddol, ond nid oedd hyn yn disodli rheoliadau.

Cadarnhaodd Lorna Davis nad oes gan ffermwyr y rhyddid na'r gallu ar hyn o bryd i lywio'r llwyfan rheoliadol, ond mae adroddiad y prosiect bellach yn darparu'r dull hwn i ffermwyr.

Bu trafodaeth ymysg y grŵp ar y rheoliadau newydd a'r llwyfan rheoliadol, ac roedd y cadeirydd am bwysleisio na ddywedodd y grŵp hwn byth ein bod yn bwriadu disodli'r rheoliadau â'r dull gwirfoddol.

Daeth y cadeirydd i'r casgliad fod angen ystyried y camau nesaf ar gyfer y prosiect i gadw momentwm a chadw cydberthnasau â ffermwyr.

## 7. Y diweddaraf ar y prosiect llaeth

Rhoddodd Matt Lowe y diweddaraf ar y prosiect, gan gadarnhau mai ffocws tîm y swyddogion llaeth bellach yw creu adroddiadau amserol yn dilyn yr ymweliadau â ffermydd. Yn wreiddiol, roedd y prosiect yn canolbwyntio ar gynnal ymweliadau ac roedd yr adroddiadau'n cymryd ychydig fisoedd i gyrraedd y ffermwr. Y targed cyflawni presennol yw sicrhau bod pob adroddiad yn cyrraedd y ffermwr o fewn pedair wythnos ar ôl yr ymweliad. Mae hyn yn galluogi cyfnod o bythefnos o sicrhau ansawdd yr adroddiad cyn ei gyhoeddi i'r ffermwr.

Yn ogystal â hynny, bydd data o'r ymweliadau'n cael ei fewnbynnu i gronfa ddata Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn pythefnos ar ôl yr ymweliad.

Ar hyn o bryd, mae gan y prosiect chwe swydd swyddog llaeth a bydd y broses o recriwtio chwe swyddog pellach yn dod i ben yn ystod y pedair wythnos nesaf. Cynhelir yr hyfforddiant i'r swyddogion newydd gyda Cyswllt Ffermio.

Bydd y swyddogion llaeth yn mynychu Sioe Laeth Cymru ar 29 Hydref yng Nghaerfyrddin.

Adolygodd Matt y camau gweithredu heb eu cyflawni sy'n ymwneud â'r data a gasglwyd gan y prosiect. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n aros am ystadegydd i adolygu'r data cyn ei gyhoeddi i'r grŵp.

Nododd y grŵp ei siomedigaeth â'r oedi o ran cyhoeddi'r data a thynnwyd sylw at y ffaith fod y camau gweithredu yn ymwneud â chyfarfod mis Ebrill 2019.

Gofynnodd y cadeirydd i Matt Lowe nodi bod yr oedi o ran adrodd yn ôl i ffermwyr yn dilyn yr ymweliadau yn peri pryder a dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr adroddiadau'n amserol ac y caniateir digon o amser am unrhyw gamau gweithredu cywirol.

## 8. Trosolwg o waith Cyfoeth Naturiol Cymru ar effeithiau llygredd amonia

Ymunodd Simon Bareham â'r cyfarfod a rhoddodd drosolwg o'r papur a ddosbarthwyd i'r grŵp cyn y cyfarfod. Roedd hwn yn amlinellu gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ar effeithiau llygredd amonia.

Caiff methan ac ocsid nitrus eu cynnwys wrth edrych ar ansawdd aer. Ar lefel y DU, mae nifer o adroddiadau'n cysylltu'r ddau.

Mae lefelau gormodol o amonia a lledaenu slyri yw un o'r achosion mwyaf. Felly, mae targedu'r brif ffynhonnell yn allweddol. Gall lledaenu'n hafal gyfrannu at allyrru 70% a mwy o amonia i'r aer a defnyddio dulliau priodol, megis esgid lusg a chwistrellu, i fwyafu'r mewnbwn o faethynnau i'r pridd a lleihau llygredd aer.

Bu trafodaeth ar estyn gwastraff moch a dofednod a ddefnyddir mewn ffatrïoedd treulio anaerobig yng Ngogledd Iwerddon, sy'n cynhyrchu pedair gwaith mwy o wastraff nag y gallant ymdopi ag ef.

Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) wrthi'n cael ei ddatblygu gan grŵp arall ac maent bellach yn troi hwn yn ddull mwy strwythuredig o weithio. Byddant yn creu fframwaith a fydd yn cyfrannu at y broses o gynllunio datblygiad lleol. Bu llawer o broblemau o ran cynllunio ar unedau dofednod ar raddfa fach ac weithiau'r rhain sy'n cael yr effaith fwyaf ar allyriadau amonia. Y cynnig yw creu'r TAN y flwyddyn nesaf.

Mae gofyn i'r is-grŵp adolygu a thynnu sylw at yr amryw broblemau, adolygu'r arweiniad, a chael cymaint o fewnbwn â phosibl oddi wrth y grŵp wrth iddynt ddatblygu'r gwaith. Bydd cyfle i'r grŵp gyfrannu at yr arweiniad diwygiedig ar sgrinio, a fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod fis Ionawr nesaf.

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar amonia yng nghanol 2019 ond bu'n rhaid rhoi seibiant ar hyn er mwyn deall y rôl y bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill o ran strwythuro'r cynllun.

Nododd yr NFU fod yr ymgynghoriad wedi cynnwys gwahoddiad i un cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod wythnos Sioe Frenhinol Cymru.

***Pwynt gweithredu 05 mis Medi: Gofynnodd y grŵp am gopïau o'r dogfennau y cyfeiriwyd atynt yn nogfen Astudiaeth Beilot Powys 2015.***

Holwyd ynglŷn â ph'un a ddylai fod moratoriwm llawn ar y gwaith cynllunio amaethyddol nes bod yr holl broblem wedi'i datrys. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad oedd hyn yn briodol ar yr adeg hon.

Yn ôl NFU Cymru, mae eu cydweithwyr yng Ngogledd Iwerddon wedi dweud wrthym nad yw'r senario y maent yn ei hwynebu ar hyn o bryd yn atal datblygiadau newydd ond yn atal y gwaith o ddatblygu adeiledd a fyddai'n datrys llawer o'r problemau presennol. Caiff ffermwyr sydd am adnewyddu eu storfeydd slyri fel y gallant reoli eu risg amgylcheddol eu hatal yn weithredol rhag gwneud

hynny yn sgil y cyfyngiadau cynllunio.

***Pwynt gweithredu 06 mis Medi: Bydd Simon Bareham yn rhannu manylion yr ap cennau â'r grŵp.***

Daeth y cadeirydd â'r drafodaeth i ben a chanfu ei bod yn bwysig i'r grŵp barhau i weithio'n agos a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp er mwyn i ni gyfrannu at y broses.

## 9. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Amlinellodd Marc Williams a Nichola Taylor ddiben Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2, gan gadarnhau'r terfynau amser ar gyfer ei greu. Gofynnwyd i'r grŵp gymryd rhan a rhoi sylwadau ar yr ecosystemau canlynol yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2, gan ddefnyddio'r dogfennau a ddosbarthwyd i'r grŵp cyn y cyfarfod:

- Ffermdir caeedig
- Priddoedd a'r defnydd o dir
- Coetiroedd

Cyflwynwyd rhestr o fylchau tystiolaeth ar ffermdir caeedig i'r grŵp ac awgrymwyd ganddynt amrywiaeth o dystiolaeth gan amryw gwmnïau, sefydliadau a chynlluniau i lenwi'r bylchau hynny o bosib.

***Pwynt gweithredu 07 mis Medi: Bydd Sara Jenkins yn rhannu tystiolaeth / astudiaethau achos gan Cyswllt Ffermio â'r grŵp.***

Cyflwynwyd i'r grŵp ddrafft o'r problemau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2 mewn ffermdir caeedig a nodwyd sylwadau i wneud newidiadau yn y ddogfen.

Roedd digon o amser i drafod y penodau ar briddoedd a'r defnydd o dir a choetiroedd ymysg y grŵp ond caiff y dogfennau eu cyhoeddi er mwyn rhoi sylwadau arnynt ynghyd ag unrhyw dystiolaeth i lenwi'r bylchau y tynnwyd sylw atynt.

***Pwynt gweithredu 08 mis Medi: Rhannu'r cyflwyniad a wnaed gan Marc Williams â'r grŵp ynghyd â'r dogfennau eraill ar ecosystemau, gan anfon sylwadau gan y grŵp i'r cyfeiriad e-bost canlynol: sonarr@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.***

## 10. Rhaglen Gyflenwi Cyswllt Ffermio ar Lygredd Amaethyddol – y diweddaraf ar ddigwyddiadau diweddar

Cadarnhaodd Sara Jenkins, Menter a Busnes, fod ganddynt 10,500 o fusnesau bellach a bod ychydig dros 21,000 o unigolion wedi cofrestru.

Mae'r gwasanaeth cynghori, sy'n darparu cyngor dienw ac annibynnol, yn parhau i fod yn boblogaidd iawn. Gyda rhestr o'r busnesau sy'n dymuno cael

cyngor technegol yn bennaf ar gyfer cynllunio gwaith rheoli maethynnau, cadarnhaodd Sara fod yn rhaid i ffermwyr fynychu digwyddiad ffermio yn y dyfodol a meddu ar gynllun busnes dilys er mwyn defnyddio'r gwasanaeth. Mae digwyddiadau pellach yn cael eu trefnu er mwyn galluogi ffermwyr i fynychu a chael y cyngor technegol.

Bydd clinigau seilwaith a glaswelltir yn parhau, gan gadarnhau bod gwybodaeth wedi'i rhannu â'r grŵp yn flaenorol.

Mae astudiaethau achos wrthi'n cael eu paratoi ar seilwaith gyda Nichola Salter o Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff y rhain eu dosbarthu i'r diwydiant trwy gyfryngau cymdeithasol a fideos YouTube.
Penodwyd 18 o safleoedd arddangos ledled Cymru, a lansiwyd yn Sioe Frenhinol Cymru 2019. Mae swyddogion technegol wrthi'n trafod pa brosiectau a gaiff eu cyflawni gan y ffermydd hynny. Mae swyddogion technegol yn cael eu hannog yn weithredol i leihau llygredd amaethyddol neu brosiectau adeiledd ar rai o'r safleoedd arddangos. Darperir mwy o wybodaeth i'r grŵp unwaith y caiff y prosiectau eu cymeradwyo.

Mae cyfres o sioeau teithiol ffermio cynaliadwy newydd orffen ac roedd eu mynychu'n orfodol er mwyn gwneud cais am Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Cadarnhawyd i'r grŵp nad yw Cyswllt Ffermio'n gweinyddu’r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, sef grant gan Lywodraeth Cymru. Mae mynychu sioe deithiol ffermio cynaliadwy'n rhan o'r gofyniadau ar gyfer y grant.

Y diweddaraf ar Lantra – mae'r cyfnod gwneud cais am yr hyfforddiant ar agor ar gyfer defnyddio slyri yn ddiogel. Bydd yn cau ar 1 Tachwedd. Ni chynhaliwyd y peilot eto, ond, yn dilyn hwn, bydd y saith ymgeisydd blaenorol o'r rownd gyntaf o geisiadau'n gwneud cais eto.

Crëwyd rhestr o gontractwyr gan ddefnyddio gwybodaeth leol a chaiff yr wybodaeth ei rhaeadru i'r contractwyr, a fydd yn gymwys i wneud cais am 80% o'r cyllid tuag at y cwrs.

Digwyddiadau corff dŵr wedi'u targedu – mae pob un digwyddiad corff dŵr ond un wedi'i drefnu a chynhelir pedwar digwyddiad yr wythnos hon. Yr un dalgylch sydd ar ôl yw dalgylch bach yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer dwy fferm. Trafodir y dull o weithio ar gyfer y dalgylch hwn ymhellach.

***Pwynt gweithredu 09 mis Medi: Bydd Sara'n rhannu nifer y mynychwyr â'r grŵp.***

Mae'r holl swyddogion datblygu wedi mynychu hyfforddiant RB209, sef hyfforddiant gofynnol er mwyn helpu i ddeall y gwaith o reoli maethynnau.

Cynhelir digwyddiad arloesi ac arallgyfeirio ar faes Sioe Frenhinol Cymru ac mae ychydig yn llai na 500 o bobl wedi cofrestru i fynychu.

***Pwynt gweithredu 10 mis Medi: Bydd Marc Williams yn casglu gwybodaeth ar brosiectau dalgylch a gynhelir eleni er mwyn creu map newydd.***

Nododd y cadeirydd lwyddiant mawr y gwaith parhaus o gyflawni ers sawl blynedd.

## 11. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd o'r is-grŵp yn y dyfodol

Nododd y grŵp y dyddiadau drafft ar gyfer cyfarfodydd 2020, a fydd yn cael eu rhannu trwy apwyntiadau calendr ar Outlook.

## 12. Y diweddaraf ar weithgareddau perthnasol yn y dyddiadur

Ni nodwyd unrhyw weithgareddau.

## 13. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.